**Gwenda Thomas AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf Our ref LFGT043513

Vaughan Gething AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

20 Mai 2013

Annwyl Vaughan

**Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)    Craffu Cyfnod 1**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 24 Ebrill lle rydych yn codi nifer o gwestiynau yn dilyn fy sesiwn dystiolaeth i'ch Pwyllgor ar 18 Ebrill. Fe ysgrifennoch chi ataf wedyn ar 20 Mai yn gofyn cwestiynau pellach. Mae fy ymatebion i bob un o'ch cwestiynau wedi'u nodi yn **No  fen 1**.

Yn eich llythyr ar 24 Ebrill hefyd, fe nodoch chi'r ymrwymiadau a wnes yn ystod fy ymweliad â'ch Pwyllgor. Fel yr awgrymwch, byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor gydag Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddaru yn yr Hydref, a thrwy wneud hynny, byddaf yn ceisio cyflwyno manylion pellach am ddarparu gwasanaethau atal ac ymyrryd yn fuan, system genedlaethol gyson ar gyfer asesiadau a chymhwysedd a sicrhau mwy o gydweithredu. Gallaf gadarnhau hefyd y byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor ynglŷn â phwerau symud ar gyfer oedolion a sut bydd y Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn gweithio'n ymarferol, wedi i'r trafodaethau rhwng fy Swyddogion a'u swyddogion cyfatebol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder ddatblygu ymhellach.

O ran yr ymrwymiad a wnes mewn perthynas â'r amserlen ar gyfer y Rheoliadau, mae'n bleser gennyf gynnwys gwybodaeth bellach yn **No  fen**    Fodd bynnag, hoffwn egluro'r ymrwymiad a wnes yn y maes hwn. Rydych yn awgrymu yn eich llythyr y byddai'r amserlen hon yn cynnwys manylion ynglŷn â phryd y bydd Rheoliadau drafft ar gael i'w hystyried. Er fy mod yn gobeithio y bydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cyfrannu at y broses o ystyried y Rheoliadau hyn wrth iddynt gael eu datblygu, hoffwn ddatgan yn glir na fydd y Rheoliadau drafft (a'r Cod neu'r Codau) eu hunain ar gael nes 2014 er fy mod yn bwriadu llofnodi'r bwriad polisi ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth â blaenoriaeth erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon a rhannu'r wybodaeth honno â chi bryd hynny.

Cyn cytuno ar fersiwn derfynol o'r bwriad polisi, rwy'n manteisio ar y cyfle hwn i ddarparu gwybodaeth ychwanegol sydd ar gael am faterion a fydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor, rwy'n siŵr. Rwyf wedi amgáu cyfres o daflenni gwybodaeth sy'n rhoi rhagor o fanylion am drefniadau'n ymwneud â gwybodaeth, cyngor a chymorth, asesu, cynlluniau gofal a

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line  0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg  0845 010 4400
Correspondence.Gwenda.Thomas@wales.gsi.gov.uk

throsglwyddo gofal, a chymhwysedd. Gyda'i gilydd, bydd y rhain yn gwella dealltwriaeth y Pwyllgor o'r hawliau newydd a nodir yn y Bil (**Do  fennau 4a d)**

Bydd y  tabl trawsleoli' amgaeedig (**Do  fen 3)** hefyd o ddiddordeb i aelodau'r Pwyllgor. Mae'n nodi adrannau o Ddeddf Plant 1989 a lle maent wedi'u cynnwys yn y Bil. Gobeithiaf y bydd hyn yn lleddfu'r pryderon hynny ynglŷn â lleoli  plant mewn angen' yn y Bil. Amgaeaf dabl diddymiadau hefyd fel y gofynnoch amdano yn eich llythyr ar 20 Mai. Wedi'r toriad, byddaf yn anfon gwybodaeth bellach atoch ynglŷn â darpariaethau newydd yn y Bil.

Hoffwn gloi'r llythyr hwn drwy gyfeirio at yr hyn a ddywedwyd yn y Siambr ar 14 Mai pan ofynnodd aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r Prif Weinidog  A ydych chi'n cytuno â datganiad eich Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol na fydd angen unrhyw arian ychwanegol i roi'r Bil ar waith, os caiff ei gymeradwyo  ' Mae'r datganiad a briodolwyd i mi yn anghywir. A gaf i dynnu sylw'r Pwyllgor at baragraffau 111, 112, 141, 143 a 144 o'r Memorandwm Esboniadol lle cyfeiriaf at gyllidebau sydd ar gael i gynnal y cyfnod trosiannol yn dilyn pasio'r Bil a chefnogi'r gwaith o weithredu'r Bil.

Edrychaf ymlaen at fy sesiwn dystiolaeth nesaf gyda chi ar 6 Mehefin.

Yr eiddoch yn gywir

**Gwenda Thomas AC**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

**Do  fen 1**

**Cafwyd sylwadau  an Aelodau yn hylch pa mor  ynhwysfawr yw'r Bil, a chafwyd rhai aw rymiadau y byddai'n rhwyddach ymdrin a  ef pe bai'n cynnwys croes yfeiriadau Oherwydd bod y Bil yn dod  llawer o faterion yn hyd mewn un Bil a fyddai fel arfer wedi'u  wahanu,  allai hyn achosi dryswch A fyddech yn ystyried ychwane u croes yfeiriadau**

Nid yw'n eglur beth y mae'r Pwyllgor yn ei gynnig. Er mwyn i ni allu ystyried y cynnig, byddwn yn ddiolchgar pe bai'r Pwyllgor yn gallu egluro'n union beth a olygir wrth groesgyfeirio, a darparu enghraifft ymarferol efallai.

**A fyddech yn ystyried ychwane u e wyddorion statudol i wyneb y Bil i helpu i atal peth dryswch fel yr ar ymhellodd Comisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad ar Ofal Cymdeithasol i Oedolion**

Trafodais fater egwyddorion statudol pan fynychais y Pwyllgor ar 18 Ebrill. Rwy'n dal i deimlo nad oes angen ychwanegu rhestr o egwyddorion statudol ar wyneb y Bil. Serch hynny, mae'r ddeddfwriaeth yn nodi egwyddorion sylfaenol a fydd yn sail i'r newid rwy'n ceisio'i gyflwyno. Er enghraifft, mae'n nodi'r gofyniad eglur mai llesiant yr unigolyn, yn hytrach na rhestr o wasanaethau, ddylai bennu'r gofal a'r cymorth sy'n cael ei ddarparu. Mae'n sefydlu canlyniadau fel prif fesur llwyddiant yn ogystal â'r egwyddor mai'r unigolyn sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu beth ddylai'r canlyniadau hynny fod.

Rydym yn deddfu er mwyn sicrhau cyfeiriad newydd clir i ofal cymdeithasol yng Nghymru drwy'r Bil hwn a theimlaf mai gwneud y newidiadau craidd yn rhan annatod o'r darpariaethau i gyd yn hytrach na dim ond cynnwys rhestr o egwyddorion statudol yw'r ffordd orau o gyflawni'r newid systemig hwn.

**Cafwyd aw rym bod cwmpas y Bil yn rhy ean  ac y byddai'r ddeddfwriaeth yn well pe byddai materion wedi'u  wahanu A ydych yn cytuno  hyn**

Yn sicr, mae'r Bil yn dwyn ystod o faterion ynghyd, er nad wyf yn cytuno y byddai'r rhain ar wahân fel arfer. Roedd tystiolaeth gan y Comisiynydd Plant a rhai o sefydliadau GIG wedi awgrymu bod y Bil yn rhy fawr hefyd tra roedd rhanddeiliaid eraill, yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru yn cyfeirio at y ffaith fod cwmpas y ddeddfwriaeth yn ei gwneud hi'n anodd i ddeall yn iawn beth fyddai effaith y ddeddfwriaeth.

Rhaid deall, fodd bynnag, mai Bil i geisio trawsnewid y modd y caiff gofal a chymorth ei ddarparu yng Nghymru yw hwn ac felly, mae'n galw am ddull o weithredu ar draws y system gyfan. Bwriedir i'r Bil arwain newid am genhedlaeth gyfan, os nad wedi hynny. Os yw gwasanaethau'n mynd i fod yn gynaliadwy, yn effeithlon a gweithio tuag at wella canlyniadau i bobl, yna rhaid eu hystyried gyda'i gilydd er mwyn cynnig darpariaeth ddi-dor yn seiliedig ar anghenion pobl a chanlyniadau llesiant, yn hytrach na darparu rhestr wedi'i diffinio ymlaen llaw o wasanaethau na ellid byth mo'u cyflawni'n foddhaol.

Mae'r Bil hefyd yn cyflwyno'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig ag integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n iawn felly bod amrywiaeth eang o swyddogaethau yn cael eu hystyried gyda'i gilydd o dan ddeddfwriaeth sylfaenol. Yn hyn o beth, bydd integreiddio'r gyfraith yn helpu i integreiddio gwasanaethau. Cydnabyddir bod hwn yn faes anodd o ran y ddeddfwriaeth ar hyn o bryd. Dyma pam mai un o brif nodau'r Bil yw symleiddio'r gyfraith yn y maes hwn drwy greu Rheoliadau cysylltiedig a chod ymarfer i helpu defnyddwyr, eu teuluoedd, ymarferwyr a'r llysoedd i lywio eu ffordd drwy'r maes cyfraith hwn. Felly er bod y

Bil yn gymhleth ac yn fawr, mae'n rhaid iddo fod felly os ydym am gyflawni'r nod eithaf hwn ac felly ni chytunaf mai rhannu'r ddeddfwriaeth yw'r ffordd orau o symud ymlaen. Hefyd, mae'n werth cofio argymhelliad Comisiwn y Gyfraith y dylid cydgrynhoi cyfraith gofal cymdeithasol er mwyn datrys y casgliad helaeth o ddeddfwriaeth ddryslyd, dameidiog a chymhleth a roddwyd mewn grym dros y 65 mlynedd diwethaf.

**Yn yr un modd, cafwyd aw rym bod y Bil hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddatrys' rhai materion penodol fel dio elu Yr aw rym oedd nad yw'r eitemau datrys' hyn yn helpu o ran undod a chysondeb y ddeddfwriaeth A oes ennych unrhyw sylwadau**

Ychydig iawn o faterion sy'n uwch ar yr agenda nag amddiffyn a diogelu pobl – mae'n brif flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Felly, nid ychwanegiad at y Bil i ateb problem ydyw, ond yn hytrach, caiff ei gynnwys er mwyn sicrhau bod darpariaethau diogelu yn cael eu gwella fel rhan o'r newidiadau i'r system gyfan y mae'r Bil yn ceisio'u cyflwyno.

Credaf yn gryf nad yw'n bosibl siarad am ofal cymdeithasol a chymorth heb gynnwys diogelu, ac i'r perwyl hwn bydd y Bil yn sicrhau eglurder a ffocws yn y maes ac yn gwneud yn siŵr bod gan asiantaethau diogelu allweddol adnoddau allweddol ar gyfer cydweithio i amddiffyn pobl a allai fod mewn perygl.

**Mae'r a enda llesiant yn ymhleth ac nid a enda wasanaethau cymdeithasol mohono i raddau helaeth mae'n cynnwys iechyd, wasanaethau cymdeithasol a bron pob wasanaeth cyhoeddus arall Os ystyrir mai wasanaethau cymdeithasol sy'n arwain y waith o sicrhau llesiant, mae'n ddi on posibl y bydd y diffiniad o lesiant yn dod yn fwy cyfyn yn ymarferol A ydych yn derbyn hyn, ac os nad ydych, sut rydych yn dis wyl i a enda llesiant ean ael ei weithredu'n ymarferol**

Nid wyf yn derbyn y syniad nad yw llesiant yn perthyn i agenda gwasanaethau cymdeithasol yn bennaf er fy mod i'n gwerthfawrogi'r ffaith ei bod yn agenda a rennir ar draws y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Bydd aelodau'r pwyllgor yn ymwybodol o'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud ag integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn ogystal â chydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac asiantaethau eraill, ac rwy'n disgwyl mai trwy'r darpariaethau hyn y caiff agenda lesiant bellgyrhaeddol ei chyflawni'n ymarferol.

**Cydsyniad Ys rifenyddion Gwladol y DU nododd Aelodau fod rha or o waith ar ymhwysedd yn mynd rha ddo yda Llywodraeth San Steffan Byddem yn werthfawro i cael y wybodaeth ddiweddaraf am y safbwynt yn yson**

O ran cymhwysedd, rwy'n hyderus fod y ddeddfwriaeth hon o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol. Ar fater cydsyniadau, er mwyn i ni allu cynnwys darpariaeth sy'n gosod neu'n amrywio swyddogaethau Gweinidogion y Goron, rydym yn parhau i gydweithio â Llywodraeth y D . Bydd derbyn cydsyniad Gweinidog yn caniatáu i ni ailgyflwyno peth o'r ddarpariaeth ynghylch byrddau diogelu a chydweithredu a ddiwygiwyd cyn cyflwyno'r Bil. Y prif destun anghytuno yw model cyllid y byrddau diogelu nad yw Gweinidogion y D yn mynd i'w gefnogi. Bydd aelodau'r pwyllgor yn cofio nad oedd y Bil a gyflwynais yn dibynnu ar ddatrys y materion hyn sy'n ymwneud â chydsyniad Gweinidogion y D , ond os cânt eu datrys, ac rwy'n rhagweld hynny'n digwydd, rwy'n falch o ddweud fy mod i'n bwriadu cyflwyno newidiadau mân i'r Bil drwy ddiwygiadau Llywodraeth ar gyfer eu hystyried yng nghyfnod 2. Rwy'n bwriadu darparu diweddariad manwl ynglŷn â hyn i'r Pwyllgor pan fyddaf yn dod i'ch cyfarfod eto ar 6 Mehefin. Mae hyn hefyd yn ateb eich cwestiwn ar yr un mater yn eich llythyr ar 20 Mai.

**Cyfuno deddfwriaeth bresennol Byddem yn croesawu rha or o wybodaeth am yr achosion hynny lle y bydd deddfwriaeth bresennol yn cael ei diddymu an**

**ddarpariaethau yn y Bil a'r achosion lle y bydd yn cael ei disodli yn y Bil Yn yr achosion hynny lle y bydd deddfwriaeth bresennol yn cael ei diddymu, a oes unrhyw ddarpariaethau yn y Bil i sicrhau nad yw darpariaethau presennol pwysi yn cael eu colli**

Oes, mae darpariaethau ar waith. Bydd y Pwyllgor wedi nodi'r tabl tarddiadau yn y Memorandwm Esboniadol. I gefnogi hyn hefyd, mae Gwasanaethau Cyfreithiol wedi llunio rhestr yn dangos y prif ddarpariaethau sy'n cael eu diddymu. Yn ogystal, gwnaed gwaith ar gynhyrchu tabl trawsleoli manwl pellach sy'n nodi lle mae darpariaethau presennol rhan 3 o Ddeddf Plant 1989 i'w gweld yn y Bil. Gyda'i gilydd, bydd y dogfennau hyn yn rhoi digon o sicrwydd i'r Pwyllgor ynglŷn â'r mater hwn. Amgaeaf y tabl trawsleoli a bydd y tabl tarddiadau yn cael ei anfon ymlaen atoch mewn pryd i chi eu hystyried yn ystod proses graffu Cyfnod 1.

**Asesu wnaethom rybwyll y trefniadau asesu newydd ond byddem yn werthfawro i rha or o e lurder o ran sut rydych yn rha weld y byddant yn weithio a sut y byddant yn wahanol ar yfer rwpiau penodol o ddefnyddwyr wasanaethau A allwch hefyd fanylu ar y rhesymau pam y byddai asesiad yn cael ei wrthod ac a yw'r yfraith bresennol yn caniat u i asesiadau ael eu wrthod**

I wella dealltwriaeth y Pwyllgor o'r hawliau newydd i ddinasyddion mewn perthynas â mynediad at ofal a chymorth, asesu, angen cymwys a chynlluniau gofal a threfniadau trosglwyddo gofal, amgaeaf bedair taflen wybodaeth sy'n egluro'r materion hyn yn llawnach.

**Tros lwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion Byddwn yn cas lu tystiolaeth ar 1 Mai an bobl ifanc a anableddau sydd phrofiad o dros lwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion A allwch amlinellu sut y mae'r Bil hwn, yn eich barn chi, yn mynd i'r afael 'r arfer presennol ar y mater pwysi hwn ac yn ei wella**

Mae'r Bil yn deddfu ar gyfer y cysyniad o fodel pobl'. Lluniwyd y model pobl' i fod o fudd i *bawb sydd angen gofal a chymorth* ac i'w gwneud hi'n bosibl symud yn ddi-dor drwy wasanaethau ar bob cyfnod o fywyd unigolyn. Mae pobl ifanc anabl yn rhan o'r grŵp hwn felly. Rwy'n fodlon fod y darpariaethau ar gyfer prosesau craidd newydd a throsglwyddo gofal yn golygu y ceir trefniadau pontio gwell ar gyfer pobl ifanc anabl ac na fydd unrhyw fwlch yn y gyfraith. Dylid cofio hefyd y bydd y Rheoliadau a'r Cod(au) Ymarfer sydd i'w datblygu yn y maes hwn yn helpu i fynd i'r afael â materion penodol yn ymwneud â phontio a allai fod yn berthnasol i'r grŵp hwn yn arbennig.

**Codi t l Cawsom drafodaeth fanwl fel Pwyll or ar obly iadau'r Bil o ran cost Ni fydd y Pwyll or yn myne i barn eto yn hylch a yw'r Bil yn niwtral o ran cost ai peidio Fodd bynna , a allwch esbonio a yw'r Bil yn ymestyn ystod y wasanaethau y ellir codi t l amdanynt neu a yw'n rhoi'r p er i wneud hynny Hefyd, a allwch adarnhau a fydd y darpariaethau yn y Bil o ran codi t l yn disodli'r rhai sydd eisoes mewn rym, er en hraifft ym Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 010**

Bydd Rhan 5 y Bil yn rhoi disgresiwn i awdurdodau lleol godi tâl rhesymol hyd at gost y gofal a'r cymorth y mae'n eu darparu o dan ddarpariaethau'r Bil, ar y rhai sy'n gallu ei fforddio. Bydd hyn yn cydgrynhoi'r pwerau presennol sydd gan awdurdodau lleol i godi tâl, er nad yw rhai o'r awdurdodau lleol hyn yn eu defnyddio ar hyn o bryd. Er enghraifft, bydd yn disodli'r ddyletswydd i godi tâl o dan Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 ar gyfer darparu llety

â gofal i oedolion a'r disgresiwn i godi tâl am ofal dibreswyl i oedolion o dan Fesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010. Hefyd, bydd y Bil yn darparu'r gallu i awdurdodau godi tâl rhesymol am wasanaethau ataliol, gwybodaeth, cyngor a chymorth a ddarparir o dan Ran 2 y Bil, lle ystyriant ei bod hi'n briodol gwneud hynny. Rwy'n ymwybodol fod peth pryder wedi'i fynegi ynglŷn ag ystod y darpariaethau codi tâl a hoffwn atgoffa'r Pwyllgor, er y bydd modd i awdurdodau lleol godi tâl o dan y Bil am yr un ystod o wasanaethau ag y gallant ar hyn o bryd, y bydd gennyf bwerau'r Rheoliadau a'r Cod(au) Ymarfer hefyd i osod terfynau neu ddatgymhwyso elfennau o'r darpariaethau codi tâl.

**Llais a rheolaeth y defnyddiwr A allwch ymhelaethu ar sut y caiff llais a rheolaeth eu cyflawni yn y Bil, an ynnwys manylion yn hylch sut y bydd y Bil yn hyrwyddo cyfrano iad an uni olion wrth bennu a llunio wasanaethau**

Rhoddir llais a rheolaeth i bobl ym mhob rhan o'r Bil: o lefel strategol y fframwaith canlyniadau cenedlaethol, i lefel sefydliadol gyda'r asesiad o angen, gwybodaeth, cyngor a chymorth, i'r unigolyn wrth nodi angen.

Credaf mai'r man cychwyn yw llesiant y bobl hynny y mae angen gofal a chymorth arnynt, a'r gofalwyr hynny y mae angen cymorth arnynt. Mae'r Bil yn nodi ystyr llesiant yn eglur: mater o hawliau yw hyn, ac yn achos oedolion, rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r dull cyffredinol yn ymwneud â rhoi mwy o lais a rheolaeth i bobl. Credwn mai'r oedolyn ei hun sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau ynglŷn â'i lesiant ei hun; ac mae hynny'n ganolog i'r hyn y ceisiwn ei gyflawni wrth sicrhau dull o weithredu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

Ar y lefel strategol, bydd y fframwaith canlyniadau cenedlaethol yn cefnogi llais a rheolaeth. Mater o lesiant yw hynny'n llwyr. Mae llesiant yn hawl i bawb ac yn gyfrifoldeb i bawb. Trwy wneud hyn yn eglur a rhoi fframwaith canlyniadau ar waith, rydym yn nodi beth yw hyd a lled llesiant, ac yn ei gwneud hi'n eglur y bydd gan unigolion eu hunain, a chymunedau a sefydliadau gyfraniad i'w wneud.

Ar lefel y sefydliad, ceir dyletswydd i nodi anghenion y boblogaeth leol, a darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth eglur. Mae hyn eto yn sicrhau llais a rheolaeth: llwyfan cadarn a thryloyw i bobl allu gwneud cynlluniau ar gyfer diwallu eu hangen am ofal a chymorth.

Ar lefel yr unigolyn, bydd egwyddor llesiant yn ganolog i'r canlyniadau unigol. Bydd y trefniadau asesu newydd yn gymesur ag anghenion yr unigolyn, yn hytrach na bod yn addas ar gyfer gwasanaeth arbennig yn unig. Ein nod yw symleiddio'r broses asesu, grymuso pobl a gweithwyr proffesiynol a chynorthwyo pobl i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am y lefel o gymorth sydd ei hangen arnynt.

**Sut rydych yn rha weld y bydd y Bil yn darparu ar yfer datbly u ac anno cyd ynhyrchu**

Ar y cam hwn, mynegi egwyddor gyffredinol ynglŷn â'r agwedd hon a wna'r Bil: yr is-ddeddfwriaeth fydd yn cyfrannu'r manylion. Rwy'n rhagweld y byddai cyd-gynhyrchu, o safbwynt y sefydliad, yn deillio o sylfeini deddfwriaethol Adran 7(1)(c) y Bil sy'n ymwneud yn benodol â hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector. Mae dyletswydd yn isadran (1)(c) sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hyrwyddo'r modd y caiff gwasanaethau gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol eu darparu yn eu hardaloedd mewn ffyrdd sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn y broses o lunio a rhedeg gwasanaethau. Mae'r Bil fel y mae

wedi'i lunio ar hyn o bryd yn rhoi cefnogaeth briodol i'r egwyddorion sy'n llywio cyd-gynhyrchu.

Ar lefel fwy unigol, mae cyd-gynhyrchu yn deillio o ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith ar gyfer Gweithredu* i ddatblygu model o gymorth hunangyfeiriedig sy'n gyson ag egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol – yn cynnwys seilwaith mwy cadarn o gymorth ar gyfer y rhai sy'n dewis y llwybrau hyn. Mae'r ymrwymiad hwnnw wedi'i ddatblygu drwy ddarpariaethau'r Bil sy'n gosod dinasyddion yng nghanol gwasanaethau a fydd yn cael eu llywio gan y diffiniad o lesiant y mae'r Bil cyfan yn seiliedig arno. Mae hyn yn cynnwys y dylai oedolion gael rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd (Adran 2(4)). Mae'r Bil hefyd yn datgan bod yn rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn perthynas ag oedolyn ystyried pwysigrwydd dechrau o'r dybiaeth mai'r oedolyn sydd yn y sefyllfa orau i farnu llesiant yr oedolyn. Mae Adran 2(3) (mewn perthynas ag oedolion) yn cynnwys dull o weithredu ar sail llais a rheolaeth a fyddai'n galw am gyd-gynhyrchu a chymorth arall dan gyfarwyddyd y dinesydd ei hun.

Hefyd bydd y Bil yn ei gwneud hi'n bosibl ymestyn y trefniadau talu uniongyrchol. At ei gilydd, mae'r Bil yn gwneud model Cymreig yn rhan annatod o'r gyfraith lle bydd cyd-gynhyrchu a ffurfiau eraill o weithio mewn partneriaeth a gweithgaredd cydweithredol yn gallu ffynnu.

**Darparwyr wedi'u rheoli an ddefnyddwyr neu ymunedau A ydych yn credu bod dyletswydd i hyrwyddo' yn ddi on cryf i sicrhau bod camau effeithiol yn cael eu cymryd an awdurdodau lleol i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, wasanaethau sy'n cael eu harwain an ddefnyddwyr a'r trydydd sector i ddarparu ofal a chymorth a wasanaethau ataliol A ydych yn ystyried y bydd y ddyletswydd hon yn arwain at ffafrio'r sector anstatudol yn hytrach na'r sector statudol o ran darparu wasanethau**

Credaf fod dyletswydd i hyrwyddo' yn rhoi cyfeiriad eglur i awdurdodau lleol ei ddilyn. Yr awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am greu'r amodau i'r mathau hyn o wasanaethau ffynnu felly credaf mai dyletswydd i hyrwyddo' yw'r iaith gywir i'w defnyddio. Rwyf wedi dweud yn eglur ar sawl achlysur nad yw'r model cyflenwi cyfredol yn gynaliadwy a chredaf fod awdurdodau lleol a phartneriaid eraill yn cydnabod hyn hefyd. n ffordd allweddol o symud i fodel mwy cynaliadwy yw cynnwys ystod ehangach o bartneriaid sy'n gallu darparu gwasanaethau mewn ffyrdd newydd. Mae'r Bil yn rhoi fframwaith i awdurdodau lleol a'u partneriaid bennu'r ffordd orau o wneud hyn, drwy gynyddu'r defnydd o fentrau cymdeithasol a mentrau eraill yn l eu profiadau a'u hamgylchiadau lleol eu hunain.

Ni chredaf fod y ddarpariaeth hon yn mynd i'n harwain ni'n anorfod at ffafrio darpariaeth anstatudol dros ddarpariaeth statudol ym mhob achos ond rwy'n disgwyl iddi arwain at ystyriaeth ehangach o ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau gyda'r dewis o'r ffordd orau ymlaen yn dibynnu ar asesu anghenion y boblogaeth yn y meysydd gwasanaeth. Yn y ffordd hon, byddwn yn disgwyl i hyn ddileu unrhyw ragdybiaeth mai'r ddarpariaeth statudol yw'r dewis gorau'n anorfod ar gyfer darparu gwasanaethau ym mhob achos.

Dylwn ychwanegu hefyd i mi ddweud pan fynychais gyfarfod y Pwyllgor ar 18 Ebrill y byddwn yn awyddus iawn i glywed syniadau'r Pwyllgor ynglŷn â'r maes hwn os yw o'r farn fod dyletswydd i hyrwyddo yn annigonol a bod croeso iddynt gynnwys y syniadau hyn yn eu hadroddiad Cyfnod 1.

**Taliadau union yrchol Sut rydych yn rha weld y bydd y Bil yn newid trefniadau presennol, an ynnwys defnyddio taliadau union yrchol**

Yn fras, mae darpariaethau'r Bil sy'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol yn cadw'r fframwaith cyfreithiol presennol lle gall awdurdod lleol, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, wneud taliadau i berson (oedolyn neu ofalwr) tuag at gost diwallu eu hanghenion am ofal a chymorth os yw'r unigolyn yn dewis hynny. Fodd bynnag, bydd y Bil yn ein galluogi i hyrwyddo ac ymestyn taliadau uniongyrchol mewn nifer o ffyrdd. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud darpariaethau yn y Rheoliadau ynglŷn â'r math o gymorth sy'n rhaid i awdurdodau lleol ei ddarparu i'r rhai sy'n derbyn taliadau uniongyrchol. Gwyddom mai un o'r prif ffactorau sy'n gwneud gwahaniaeth i'r nifer sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol yw natur a graddau'r cymorth sydd ar gael i ddefnyddwyr. I ryw raddau mae hyn eisoes yn digwydd drwy gontractau awdurdodau lleol â darparwyr cynlluniau cymorth. Ond mae'r Bil yn mynd ymhellach gan y bydd hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth yn y Rheoliadau ar gyfer amgylchiadau pan fydd yn rhaid i awdurdod lleol weithredu fel asiant ar gyfer ffurfio contractau â darparwyr ar ran unigolyn sy'n derbyn taliadau uniongyrchol. Er enghraifft, byddai modd i'r awdurdod lleol weithredu fel brocer ac arolygu'r farchnad o ddarparwyr gofal cymdeithasol i nodi pa rai sydd orau am ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion yr unigolyn, a thrafod telerau a'u cyflwyno i'r darparwr.

Hefyd, bydd y newidiadau a wnawn i'r broses asesu, i sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwybod yn fuan am oblygiadau ariannol derbyn gwasanaethau a sut y bydd y rhain yn cael eu trin, yn golygu y bydd defnyddwyr gwasanaethau yn cael gwybod am daliadau uniongyrchol fel opsiwn cyn gynted ag y bo modd. Mae cysylltiadau i'w gwneud hefyd â hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol a gwasanaethau eraill sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr o dan adran 7 y Bil a byddwn yn archwilio'r rhain ymhellach wrth i ni ddatblygu'r Rheoliadau a'r Cod(au) Ymarfer.

**Nododd y Pwyll or eich bod yn weithio yda Mar Isherwood AC ar drefn eithrio i bobl nad ydynt yn dymuno defnyddio taliadau union yrchol Sut rydych yn rha weld y bydd hyn yn weithio'n ymarferol ac a allwch ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am ynnydd ar y waith hwn**

Ymddengys bod peth camddealltwriaeth ynglŷn â fy nhrafodaeth â Mar Isherwood AC yn ddiweddar. <u>Nid</u> yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno system eithrio ar gyfer taliadau uniongyrchol. Rydym am hyrwyddo'r defnydd o daliadau uniongyrchol, ond credwn mai penderfyniad ar sail gwybodaeth gan yr unigolyn sydd angen gofal a chymorth ddylai hwn fod.

Cefais gyfarfod â Mar Isherwood i drafod ei Fil Arfaethedig Aelod ar Daliadau niongyrchol, sy'n ceisio cyflwyno system eithrio, a'i berthynas gyda darpariaethau'r Bil ar gyfer taliadau uniongyrchol. Rhoddais sicrwydd iddo o'm hymroddiad i barhau i weithio gydag ef a'r rhanddeiliaid wrth i ni symud ymlaen i ddatblygu ein model ein hunain o gymorth a gyfarwyddir gan ddinasyddion yng Nghymru, ac yn sgil hynny, cytunodd i dynnu ei gynnig yn l yn ystod y ddadl ar ei gynnig ar y Bil. Hefyd, addewais y byddwn yn gofyn i'r Grŵp Trosolwg Taliadau niongyrchol (sy'n cynnwys rhanddeiliaid o'r sectorau statudol a'r trydydd sector, a chynrychiolwyr defnyddwyr gofalwyr) i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu cyfres o egwyddorion yn sail i'r Rheoliadau a'r cod ymarfer ar daliadau uniongyrchol o dan y Bil ac mae hyn bellach ar y gweill. Rwyf wedi cytuno i roi gwybod i Mar Isherwood am unrhyw ddatblygiadau.

**Dio elu Rydym wedi cael cryn dipyn o dystiolaeth yn aw rymu y allai cyfuno byrddau dio elu plant ac oedolion arwain at un r p yn cael blaenoriaeth dros y llall, an arwain at olli ffocws A ydych yn cytuno hyn ac, os nad ydych, sut rydych yn rha weld y bydd y ddau r p yn cael eu warchod**

**A allwch fanylu ar y sail resyme ol dros ddarparu pwerau i aniat u i fyrddau plant ac oedolion ael eu cyfuno a sut y bydd y broses hon yn arwain at wasanaethau well i'r ddau r p**

Rwy'n ymwybodol fod ADSS Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, er enghraifft, wedi cwestiynu gwerth neu'r angen i uno Byrddau Diogelu Oedolion a Phlant, gan ddadlau y gallai hyn arwain at golli ffocws ar oedolion a phlant fel ei gilydd, a pheryglu'r gwaith mwy datblygedig a wnaed gan y byrddau plant yn enwedig. Nid wyf yn cytuno â'r dadansoddiad hwn.

Mae'r ddarpariaeth hon o fewn y Bil yn deillio o waith ac adroddiad terfynol Fforwm Diogelu Plant Cymru. Sefydlwyd y Fforwm gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn Hydref 2009. Roedd yn dwyn ynghyd arbenigedd a phrofiad sylweddol ym maes diogelu ac amddiffyn er mwyn ystyried pa gamau y gellid eu cymryd i gryfhau'r trefniadau presennol yng Nghymru. Roedd ei aelodau'n cynnwys uwch arweinwyr o bob agwedd ar yr agenda diogelu, yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, y Comisiynydd Plant a'r Heddlu.

Agwedd arall ar y cynigion diogelu sydd wedi achosi peth pryder yw'r ddarpariaeth a fyddai'n caniatáu ar gyfer <u>uno byrddau diogelu plant ac oedolion</u>. nwaith eto, dyma fater sy'n deillio o waith y Fforwm. Daw eu hadroddiad i'r casgliad canlynol:

> There is a strong case to establish and de elop combined Adult and Children's Safeguarding Boards to reflect the National Board proposal. This would strengthen further leadership and accountability for safeguarding and protection at a sub-national le el. There is a rationale to progress this combined model at the same time as establishing the National Safeguarding Board for Adults and Children. It may, howe er, be ad isable to wor toward this, when a more robust statutory framewor for adult protection in Wales has been introduced.'

Derbyniodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol argymhellion y Fforwm ym mis Hydref 2011. Ddeuddeg mis yn ddiweddarach, nododd fod y cynnig y dylai'r byrddau hyn uno mewn amser yn un a fu'n destun cryn dipyn o drafod. Dywedodd ei bod yn parhau'n ymrwymedig i'r egwyddor, ond yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r pryderon a fynegwyd. Er gwaethaf y sicrwydd a roddodd y Dirprwy Weinidog yn sgil hynny, codwyd y mater eto wrth graffu ar y Bil, yn cynnwys er mawr siom gan aelodau'r Fforwm a wnaeth yr argymhelliad gwreiddiol.

Hoffwn ailadrodd felly nad oes bwriad yn y tymor byr a chanolig i ddefnyddio'r pwerau arfaethedig ar gyfer uno'r byrddau. Fodd bynnag, mae hwn yn Fil am genhedlaeth ac yn y cyd-destun hwnnw, rydym wedi penderfynu derbyn cyngor y Fforwm a chynnwys y ddarpariaeth. Y rheswm am hyn yw ein bod yn gallu gweld manteision hirdymor a allai godi o ystyried anghenion diogelu pobl yn gyffredinol yn hytrach na gwahanu oedolion a phlant. Fodd bynnag, byddai'n rhaid cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar unrhyw gynnig i uno.

Gyda'r ystyriaethau a'r strwythurau priodol yn eu lle, credaf y gallai uno byrddau arwain mewn gwirionedd at wella perfformiad yn gyffredinol drwy ganiatáu i arferion gorau'r naill fwrdd a'r llall ddod yn norm.

Serch hynny, caiff y gwahaniaethau presennol rhwng gweithrediad a pherfformiad y byrddau eu cydnabod ac nid yw eu huno'n benderfyniad y byddem yn rhuthro i'w wneud. Yn fy nhystiolaeth i'ch Pwyllgor ar 18 Ebrill, dywedais nad oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i uno'r byrddau hyn ac mai'r bwriad yw sefydlu patrwm o chwe bwrdd diogelu plant a byrddau diogelu oedolion wedi'u cryfhau.

Nodais hefyd y byddwn yn barod i ystyried uno pe deuai'n amlwg y byddai uno byrddau'n cryfhau'r gwaith o ddiogelu. Mae'r ddarpariaeth wedi'i chynnwys felly er mwyn ein galluogi i wneud hyn ac i gydnabod y manteision posibl yn yr hirdymor a fyddai'n codi o ystyried anghenion diogelu pobl yn gyffredinol yn hytrach na wedi'u gwahanu'n oedolion a phlant.

**Gweithio mewn partneriaeth A allwch fanylu ar y bwriad y tu l i Ran , Pennod y Bil ar drefniadau partneriaeth a'r modd y bydd y Rheoliadau yn eu hyrwyddo**

Mae'r darpariaethau yn Rhan 9 Pennod 2 yn ymateb i'r dystiolaeth o'r angen i gryfhau cydweithredu ac integreiddio'r modd y caiff gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd eu darparu drwy ofynion i weithio mewn partneriaeth y gallai'r Rheoliadau a'r canllawiau eu pennu. Ni ellir cyflawni canlyniadau i unigolion oni bai bod darparwyr gwasanaethau'n cydweithredu'n effeithiol. Caiff trefniadau blaenorol ar gyfer plant o dan Ddeddf Plant 2004 eu diweddaru a'u hatgynhyrchu ar gyfer oedolion, gan ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd weithio mewn partneriaeth ac integreiddio gwasanaethau, cyfuno cyllidebau a defnyddio dulliau hyblyg eraill. Hefyd, gellir ymestyn y defnydd o'r trefniadau newydd yn fwy eang na rhwng un Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Lleol.

Bydd y rheoliadau a'r canllawiau'n nodi'r gofynion ar gyfer datblygu'r partneriaethau ffurfiol arfaethedig rhwng awdurdodau lleol, cyrff iechyd a phartneriaid eraill i gynyddu'r sylw ar ddarparu gwasanaethau i ddefnyddwyr, egluro mynediad i wasanaethau, creu hyblygrwydd a thryloywder o ran y defnydd o adnoddau, cydlynu'r gwaith o reoli perfformiad a sicrwydd ansawdd, a chynyddu'r gallu i gynllunio ar gyfer galw yn y dyfodol. Mae'r darpariaethau hyn yn ymgorffori Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 sy'n darparu'r sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd.

**Sut rydych yn rha weld y byddai materion yn hylch codi t l am wasanaethau cymdeithasol a wasanaethau iechyd na chodir t l amdanynt yn cael eu datrys mewn trefniadau iechyd a ofal cymdeithasol inte redi**

Nid yw cyfuno gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd yng nghyd-destun pobl hŷn ag anghenion cymhleth yn cael ei ddatblygu gyda golwg ar newid y trefniadau codi tâl ar draws y rhyngwyneb, ond mae'n ymwneud â sicrhau bod nifer yr achosion o dderbyniadau heb eu trefnu ac oedi wrth drosglwyddo gofal yn lleihau ac yn cael eu rheoli'n fwy priodol, a bod y gwasanaeth iawn ar yr adeg iawn yn cael ei ddarparu mewn modd cydgysylltiedig er mwyn diwallu anghenion yr unigolyn yn well. Bydd yr un hawl gan yr unigolyn i ofal GIG am ddim, i asesiad gofal iechyd parhaus, i ofal a ariennir gan y GIG ac i ofal cymdeithasol. Bydd modd codi tâl am yr elfen gofal cymdeithasol hyd at y cap a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru am wasanaethau gofal cartref. Fel y nodais yn fy Natganiad Ysgrifenedig yn ddiweddar a'r dadleuon cysylltiedig yn y Cyfarfod Llawn, rydym hefyd yn edrych ar sut y gellid diwygio trefniadau codi tâl am ofal preswyl yng Nghymru yng ngoleuni ymateb Llywodraeth y D i Adroddiad Dilnot. Bydd defnydd ehangach o gyllidebau cyfun i integreiddio gwasanaethau rhwng Cynghorau a Byrddau Iechyd Lleol hefyd yn helpu i leihau problemau gyda chodi tâl ar draws ffiniau gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd.

**Diffiniadau Rwy'n ymwybodol eich bod wedi dweud eich bod yn barod i ystyried rhestr y diffiniadau yn y Bil ymhellach a'ch bod wedi ofyn i'r Pwyll or ystyried y mater hwn Byddwn yn ymdrin 'r mater hwn yn ein hadroddiad, ond byddai o ymorth pe allech esbonio'ch rhesymau dros beidio chynnwys diffiniadau, fel y trafodwyd yn y cyfarfod**

Nodir y diffiniadau craidd fydd yn sylfaen i'r fframwaith deddfwriaethol ar wyneb y Bil. Bydd diffiniadau eraill yn cael eu darparu drwy'r Cod Ymarfer. Mae mynd ati yn y ffordd hon yn sicrhau'r hyblygrwydd sydd ei angen ar gyfer ymateb i anghenion newidiol unigolion neu'r

boblogaeth a allai ddigwydd, neu ddatblygiad deddfwriaeth arall a allai ddod i rym yng Nghymru a'r D  dros oes y Bil. Felly, ni chredaf y byddai'n synhwyrol cynnwys unrhyw ddiffiniadau eraill ar wyneb y Bil. Gallai gwneud hynny gyfyngu ar hyd oes y Bil o bosibl, a gallai gynyddu'r tebygrwydd y byddai'n rhaid i'r Cynulliad ddiwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol.

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol yn eich llythyr ar 20 Mai:

**Fframwaith Cymhwysedd Cenedlaethol**

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am eu diddordeb yn y fframwaith asesu a chymhwysedd cenedlaethol a'i effaith bosibl. Mae adroddiad yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol, *Access to Care and Wellbeing*, yn cydnabod yr heriau sydd ynghlwm wrth y gwaith o ddatblygu'r fframwaith asesu a chymhwysedd; sut y caiff ei weithredu a'i statws yn y model integredig newydd ar gyfer gofal a llesiant. Mae adroddiad yr Asiantaeth a'r gwaith sydd ar y gweill gan fy swyddogion yn rhoi cyd-destun eglur ar gyfer datblygu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o sicrhau gofal a llesiant pobl.

Rwyf i wedi cymryd y cam beiddgar o gynnwys ar wyneb y Bil yr amgylchiadau hynny pan fydd unigolion yn cael eu rhoi mewn categori  pasbort' i ddynodi bod ganddynt angen cymwys: rhai sydd mewn perygl ac yn derbyn gofal a phlant eraill sy'n cael eu lletya. Mewn achosion o'r fath, bydd **dyletswydd** ar yr awdurdod lleol i ddiwallu'r anghenion gofal a chymorth a'r canlyniadau y bydd unigolion yn eu dymuno. Bydd y fframwaith asesu a chymhwysedd cenedlaethol (drwy'r Rheoliadau a'r Cod(au) Ymarfer) yn diffinio'r amgylchiadau ar gyfer pennu bod anghenion cymwys gan unigolion eraill.

Bydd y taflenni gwybodaeth a atodwyd at y llythyr hwn yn eich helpu i ddeall y trefniadau newydd a'r cysylltiad rhyngddynt.

Hefyd, gallaf roi sicrwydd fy mod yn rhoi llawer iawn o sylw i'r gwaith o gynllunio a gweithredu gofal a llesiant yn y maes hwn yn cynnwys yr angen i sicrhau parhad gofal i unigolion mewn perthynas â thrawsnewid y system gyfredol ar gyfer cymhwyso'r ddeddf newydd. Mae trawsnewid ar y raddfa hon a'i effaith ar lawer o bobl yn sylweddol a bwriadaf brofi'r trefniadau hyn cyn eu gweithredu.

Ym mis Mehefin, byddaf yn gwneud datganiad yn manylu rhagor ar hyn ac ar fy nghynlluniau ar gyfer y cyfnod nesaf o gyd-gynhyrchu a phrofi'r model gofal a llesiant newydd integredig.

**Diddymu Deddfwriaeth Bresennol   Rhestr yn amlinellu lle y bydd y Bil yn diddymu deddfwriaeth bresennol, yn nodi mannau yn y Bil lle y bydd deddfwriaeth yn disodli deddfwriaeth bresennol ac yn rhoi sicrwydd na fydd hawliau presennol yn cael eu lleihau**

Amgaeaf dabl sy'n rhestru'r ddeddfwriaeth a gaiff ei diddymu. Mae'n bosibl y bydd pethau'n cael eu hychwanegu at y rhestr hon. Bydd rhestr arall yn manylu ar y darpariaethau yn y Bil sy'n disodli'r darpariaethau a ddiddymir ar gael yn dilyn y toriad. Mae'n bwysig darllen y ddau dabl gyda'i gilydd. Rwy'n manteisio ar y cyfle hwn i ailadrodd un o fy negeseuon allweddol sef na fydd y Bil hwn yn achosi unrhyw niwed i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr mewn perthynas â'r hawliau y maent eisoes yn eu mwynhau.

Rwy'n ymwybodol hefyd fod pryderon wedi'u lleisio yn ystod y broses graffu mewn perthynas â'r materion canlynol ac efallai y byddai'n werth i mi roi fy marn i chi ar y materion hyn:

*Polisi codi tâl a phryderon ynglŷn â phlant a phobl ifanc, er gwybodaeth*

Mae'r rhain yn faterion y byddaf eisiau ymgynghori yn eu cylch, ac mae gen i'r pŵer i wneud hynny. Mae'r darpariaethau codi tâl yn bwerau galluogi ac yn atgynhyrchu egwyddorion y darpariaethau codi tâl sydd eisoes yn bodoli yn adrannau 17 a 29 o Ddeddf Plant 1989. Yr hyn rwy'n ei ddweud yw nad wyf yn credu ei bod yn afresymol disgwyl i blentyn neu deulu sydd â modd o dalu am wasanaeth i wneud hynny.

*Adran 17 o Ddeddf Plant 1989 a'r posibilrwydd o golli ffocws ar blant, er enghraifft, statws plant anabl fel plant mewn angen gan arwain at roi mynediad awtomatig iddynt i wasanaethau cymdeithasol.*

Nid ydym wedi atgynhyrchu'r ymadrodd "plentyn mewn angen" yn y Bil ac adran 17 a bydd yr adrannau eraill yn rhan 3 o Ddeddf Plant 1989 yn cael eu diddymu. Fodd bynnag, mae'r hawliau a gr wyd gennym yn mynd y tu hwnt i'r hyn a ddarperir gan adran 17 o Ddeddf 1989 drwy greu dyletswydd ar wyneb y Bil ar awdurdodau lleol i asesu plant lle mae'n ymddangos eu bod angen gofal a chymorth a dyletswydd wedyn i ddiwallu'r anghenion hynny sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd. Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer plant aeddfed y bernir eu bod yn gymwys i wrthod hawl i asesiad oni cheir materion diogelu sy'n drech na'r darpariaethau hynny.

Bydd y fframwaith cymhwysedd yn manylu'n fwy trylwyr ar y math o anghenion fydd yn cael blaenoriaeth a phennir blaenoriaeth yn l y meini prawf cymhwysedd, er enghraifft, plant sydd mewn perygl o gael niwed neu blant anabl.

Mae'n werth nodi hefyd nad oes gan blentyn anabl unrhyw hawl awtomatig i wasanaeth o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989. O dan adran 17, mae hawl plentyn anabl i wasanaethau'n dibynnu p'un a yw'r asesiad yn datgelu digon o dystiolaeth i beri i wasanaeth gael ei ddarparu. Mae adran 17(1) o Ddeddf Plant 1989 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i ddiogelu a hybu lles plentyn mewn angen (y mae ei ddiffiniad yn cynnwys plentyn "anabl") drwy ddarparu ystod a lefel o *wasanaethau sy'n briodol i anghenion* y plentyn. Fodd bynnag nid oes unrhyw hawl awtomatig i wasanaethau: rhaid i'r awdurdod lleol bennu bod gan y plentyn anghenion y gellir eu diwallu drwy ddarparu gwasanaeth o dan adran 17. Nid oes unrhyw warant y bydd angen gwasanaethau ar blentyn anabl o anghenraid, ac os oes angen gan y plentyn, nid oes gwarant y bydd yr awdurdod lleol yn darparu gwasanaeth i ddiwallu'r angen hwnnw. Gweler y tabl trawsleoli' am ragor o wybodaeth.

*Iaith a therminoleg: osgoi termau a allai fod yn wahaniaethol.*

Rwy'n bwriadu cyflwyno diwygiadau'r Llywodraeth yng Nghyfnod 2 a fydd yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â therminoleg drwy roi'r term nam ar y golwg neu nam difrifol ar y golwg' yn lle'r gair dall' a rhoi'r term byddar-ddall' yn lle sy'n ddall ac yn fyddar'. Penderfynais wneud hyn yn dilyn nifer o sylwadau uniongyrchol gan sefydliadau rhanddeiliaid ynglŷn â'r derminoleg sy'n cael ei defnyddio yn adran 9 y Bil sy'n darparu ar gyfer cofrestri pobl ddall, pobl fyddar a phobl eraill anabl. Cyflwynwyd y sylwadau hyn yn ysgrifenedig hefyd i'ch Pwyllgor fel rhan o waith craffu Cyfnod 1 y Bil.

Rydych yn ymwybodol hefyd o fy nghefnogaeth i'r Model Cymdeithasol o Anabledd a darpariaeth y Bil ar gyfer Rheoliadau a allai ddarparu y caiff neu na chaiff person sy'n perthyn i gategori penodol ei drin fel person anabl at ddibenion y ddeddfwriaeth hon. Rwyf wedi dweud y byddwn yn hapus i roi ymrwymiad buan i ystyried sut y gellid hyrwyddo'r cysyniad o'r model cymdeithasol yn y Rheoliadau a neu'r Cod(au) Ymarfer.

*Y Rheoliadau sy'n ymwneud ag uno byrddau diogelu rhanbarthol ac ymdrin â hyn drwy'r weithdrefn gadarnhaol.*

Ydw, rwyf i wedi fy narbwyllo y dylid ymdrin â'r mater hwn drwy'r weithdrefn gadarnhaol.

*A ddylai fod gorfodaeth i fynnu bod yn **rhaid** i wasanaethau cymdeithasol ac iechyd weithio gyda'i gilydd?*

Mewn perthynas â'r mater hwn, rhagdybiaf fod y cwestiwn yn codi yn nhermau gweithio mewn partneriaeth, gan fod y ddarpariaeth yn datgan bod yn rhaid i awdurdodau lleol arfer y swyddogaethau perthnasol mewn perthynas â gweithio integredig a chydweithredu. O ran gweithio mewn partneriaeth, nid yw'r defnydd o'r gair  gallai' yn gymwys ac eithrio mewn perthynas â phenderfyniad Gweinidogion Cymru i wneud Rheoliadau o'r fath. Rwy'n llawn fwriadu gwneud hynny a byddant yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

*A oes gofyniad yn y Bil ynglŷn â chymorth ôl-fabwysiadu?*

Ar hyn o bryd, mae gan awdurdodau lleol swyddogaethau mewn perthynas â gwasanaethau cymorth mabwysiadu o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Nid ydym yn diddymu'r darpariaethau hyn er mwyn uno hyn â'r dyletswyddau cyffredinol i ddarparu gofal a chymorth o dan y Bil. Bydd gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn cael eu heffeithio gan y Bil am mai'r bwriad yw i hyn fod yn un o swyddogaethau mabwysiadu awdurdodau lleol a fydd yn cael eu cyfuno a'u cyflawni drwy'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Bydd yn parhau â'r hyn a wneir ar hyn o bryd drwy gomisiynu'r gwasanaeth hwn gan y Trydydd Sector ond bydd yn gallu cydlynu'r modd y caiff y gwasanaethau eu darparu dros ardaloedd mwy o faint.

# Model Gwasanaeth Newydd dan y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
# Gwybodaeth, Cyn  or a Chynhorthwy

**Beth yw'r  wasanaeth Gwybodaeth, Cyn  or a Chynhorthwy newydd**

Dan y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), rhaid i bob awdurdod lleol sicrhau – gyda chymorth y BILI sy'n bartner iddo – fod gwasanaeth wedi'i ddarparu i roi gwybodaeth a chyngor i bobl ynghylch gwasanaethau gofal a chymorth ac (os yw'n briodol) help i gael y gwasanaethau hyn.

Cael gwybodaeth a chyngor priodol yw'r cam cyntaf i bobl sy'n chwilio am ofal a chymorth i'w helpu i gael y lles mwyaf posibl. Bydd ansawdd y gwasanaeth hwn, a'r gallu i'w ddefnyddio'n rhwydd, yn hollbwysig gan mai'r feirniadaeth ar y system gofal cymdeithasol bresennol yw ei bod yn ddigyswllt ac yn anodd gweld y ffordd o'i chwmpas.

Rhaid i'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy fod yn ddigonol i alluogi dinasyddion i gwrdd â'u hanghenion am ofal a chymorth, yn awr ac yn y dyfodol.

**Beth fydd y  wasanaeth yn ei  ynni**

Er y bydd pob awdurdod lleol (gyda chymorth y BILI sy'n bartner iddo a sefydliadau lleol yn y trydydd sector) yn datblygu ei ddarpariaeth ei hun i wasanaethu ei ardal, rhagwelir y bydd nifer o elfennau cyffredin:

- Bydd yn **bwynt mynediad cyntaf** ac yn ddigon hyblyg ac ymatebol i ddelio ag ymholiadau uniongyrchol gan y dinesydd a chwestiynau atgyfeiriadau gan weithwyr proffesiynol.
- Bydd yn darparu  **wybodaeth** i helpu pobl i ddeall sut y mae'r system gofal a chymorth yn gweithio yn eu hardal; y mathau o wasanaethau sydd ar gael, a sut y gallant gael gafael arnynt.
- Bydd y gwasanaeth hwn **ar  ael i bob dinesydd** a allai fod ag anghenion am ofal a chymorth, pa un a fydd yn ariannu ei hun neu'n dibynnu ar ariannu gan yr awdurdod lleol i ryw raddau.
- Bydd yn galluogi dinasyddion i ddechrau **ymchwilio i'w han  henion am ofal a chymorth** a phennu beth maent am ei gyflawni (o ran eu lles). Bydd yn cynnig asesiadau cyntaf a gwasanaeth brysbennu er mwyn ymateb i anghenion y dinesydd mewn ffordd gymesur.
- Bydd yn **cyflwyno opsiynau ac yn cyfeirio dinasyddion** at wasanaethau gofal a chymorth addas, gan gynnwys cyngor ar y dewis o wasanaethau ataliol sydd ar gael yn y gymuned.
- Os yw'n briodol, bydd y gwasanaeth hefyd yn **cynorthwyo** rhai pobl i gael gwasanaethau e.e. drwy drefnu apwyntiadau neu gomisiynu gwasanaethau ar eu rhan. Yn ogystal â hyn, gellid cynnig rhywfaint o help i reoli pecynnau gofal.

Bydd fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer y gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy a fydd yn pennu safonau cenedlaethol i Gymru gyfan.

**Sut y caiff y  wasanaeth ei  yflenwi**

Bydd angen i'r gwasanaeth fod yn ddigon hyblyg a chynhwysfawr i gynnig gwybodaeth a chyngor integredig i grwpiau cleientiaid o bob math, ac o bob oed a gallu.

O gofio hyn, mae'n glir y bydd angen dull syml ond amlweddog o wasanaethu'r bobl hynny sydd ag angen gofal a chymorth.

Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu bod y gwasanaeth ar gael:

Drwy nifer o gyfryngau, er enghraifft:

- ymgynghori wyneb yn wyneb
- sgwrs dros y ff  n
- gwasanaeth ar-lein pwrpasol

Ar gyfer amrywiaeth o bobl gan gynnwys:

- Plant  eu teuluoedd
- Oedolion
- Gofalwyr; neu
- weithiwr proffesiynol priodol sy'n gweithredu ar ran ei gleient

*Mae taflenni gwybodaeth ar wahân ar asesiadau o anghenion; cymhwystra; a chynlluniau gofal a chymorth (gan gynnwys hygludedd)*

# Model Gwasanaeth Newydd dan y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)  Asesu

**Beth yw asesu**

Asesu yw'r broses y mae'r awdurdod lleol yn ei defnyddio i ystyried amgylchiadau'r person a phenderfynu a oes arno angen gofal a chymorth i'w helpu i fyw o ddydd i ddydd.

Fel arfer, bydd yn cael ei wneud gan weithiwr cymdeithasol, a bydd yn ystyried nifer o ffactorau. Bydd yn edrych ar anghenion y person ac yn ystyried ei amgylchiadau penodol. Fodd bynnag, ni fydd pob un o'r anghenion yn galw am ofal a chymorth cyhoeddus nac yn cael ei fodloni gan wasanaethau cyhoeddus.

**Pam y mae an  en newid y  yfraith**

Ar hyn o bryd mae cyfrifoldebau awdurdodau lleol ar gyfer asesu wedi'u cynnwys mewn nifer o statudau ac mae prosesau gwahanol ar gyfer oedolion, plant a gofalwyr. Mae angen symleiddio'r gyfraith fel bod y dyletswyddau'n fwy rhesymegol a dealladwy. Ar hyn o bryd mae'r asesu (ar gyfer oedolion a gofalwyr yn enwedig) yn canolbwyntio ar bennu gwasanaeth i'w ddarparu, yn hytrach nag ar anghenion y person a'r canlyniadau y mae am eu cael.

Rydym am ddatblygu system symlach sy'n canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn ac yn rhoi llais cryfach a rheolaeth wirioneddol i bobl wrth bennu'r gofal a chymorth sy'n addas iddynt er mwyn aros yn annibynnol yn hirach, gwneud gwell dewisiadau ynghylch eu gofal a chael y lles gorau posibl.

**Beth fydd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ei wneud**

Mae'n creu hawl sengl i gael asesiad ar gyfer *pobl* – oedolion, plant (a'u teuluoedd) a gofalwyr – os yw'n ymddangos i'r awdurdod lleol fod anghenion am ofal a chymorth gan yr unigolyn, neu anghenion am gymorth yn achos y gofalwr. Mae hyn yn golygu y bydd hawl gan ofalwyr i gael asesiad o'u hanghenion am gymorth, heb orfod gofyn am hynny'n ffurfiol.

Mae'r Bil yn ceisio helpu i feithrin perthynas wahanol rhwng ymarferwyr, unigolion a'u cymuned – gan greu partneriaeth i ddeall anghenion a sicrhau'r canlyniadau cywir, i'r graddau mwyaf posibl, ar gyfer pobl a'u teuluoedd.

Dan y Bil, mae'n ofynnol bod yr asesiad:

- yn canolbwyntio ar ganfod a oes anghenion am ofal a chymorth gan y person, a beth yw'r anghenion hynny;
- yn ystyried y canlyniadau y mae'r person hwnnw (a neu berson sydd â chyfrifoldeb rhiant) am eu cael;
- yn asesu a fydd ac i ba raddau y bydd y ddarpariaeth o ofal a chymorth yn cyfrannu at sicrhau'r canlyniadau hynny;
- yn cael ei wneud mewn ffordd y mae'r awdurdod lleol yn ei hystyried yn *gymesur* â'r amgylchiadau h.y. os gellir bodloni anghenion y person drwy ddarparu gwybodaeth neu gyngor, neu wasanaeth ataliol cyffredinol, yna ni fydd angen asesiad llawnach.

**Os yw'r person yn blentyn**, rhaid i'r asesiad o anghenion roi sylw hefyd i'w anghenion datblygiadol; gallu ei rieni i gwrdd â'i anghenion; ac amgylchiadau eraill sy'n effeithio ar ei les.

**Os yw'r person yn ofalwr**, rhaid i'r asesiad roi sylw i'w allu a'i barodrwydd i barhau i ofalu yn ogystal â'i anghenion o ran cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a hamdden (os yw'n oedolyn) ac anghenion datblygu (os yw'n blentyn). Os yw'r gofalwr yn blentyn, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried hefyd a yw'n briodol i'r plentyn ddarparu gofal yng nghyd-destun ei anghenion ei hun.

Rhaid i bob asesiad gael ei wneud heb ystyriaeth i lefel ymddangosiadol yr angen; yr adnoddau ariannol sydd ar gael i'r person (neu i'w deulu, os yw'n blentyn); a heb unrhyw ystyriaeth ynghylch a yw'r person yn gymwys i gael gwasanaethau.

Mae'n bwysig nodi bod y Bil hefyd:

- yn egluro dan ba amgylchiadau na fydd gwrthod asesiad gan berson (neu ei wrthod gan berson sydd â chyfrifoldeb rhiant, yn achos plentyn) yn rhyddhau'r awdurdod lleol o'i ddyletswydd i wneud asesiad h.y. lle y mae perygl o gam-drin neu esgeuluso.
- yn darparu ar gyfer cyfuno asesiadau; ar gyfer pobl a'u gofalwyr (os yw'n briodol); ac ar gyfer pobl sydd ag anghenion lluosog (e.e. iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, anghenion addysgol arbennig).

**Beth fydd yn di  wydd ar  l  wneud asesiad**

Ar  l gwneud asesiad, bydd yr awdurdod lleol yn ystyried wedyn a oes modd diwallu unrhyw anghenion sydd wedi'u nodi ac a yw'r person yn gymwys i gael gofal a chymorth, neu a oes modd cwrdd â'i anghenion drwy ddarparu gwasanaethau ataliol cyffredinol. *Mae taflen wybodaeth ar gymhwystra ar gael ar wahân hefyd.*

# Model Gwasanaeth Newydd dan y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)  Cynlluniau Gofal a Chymorth

**Beth yw cynllunio   ofal a chymorth**

Cynllunio gofal a chymorth yw'r broses y mae awdurdod lleol yn ei defnyddio i helpu person (ac unrhyw ofalwr sydd ganddo) i benderfynu pa wasanaethau fydd y gorau i fodloni anghenion sydd wedi'u hasesu.

Bydd yn ystyried pa  anghenion cymwys' sydd gan y person, pa ganlyniadau y mae am eu cael, beth y gall ei wneud ar ei ben ei hun neu gyda'r cymorth sydd ganddo eisoes, a pha fathau o ofal a chymorth a allai fod ar gael iddo.

Bydd yn cofnodi anghenion asesedig y person a'i  anghenion cymwys' ac yn disgrifio sut y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu bodloni, neu drefnu i fodloni, yr anghenion hynny. Caiff cynlluniau eu hadolygu'n gyson i sicrhau eu bod yn parhau'n effeithiol a chyfredol.

**Pam y mae an  en newid y   yfraith**

Cafwyd beirniadaeth ar y trefniadau ar gyfer rheoli gofal plant ac oedolion ac adolygu gwasanaethau ar eu cyfer am eu bod yn anghydlynol ac yn gorgyffwrdd yn aml. Mae hyn wedi arwain at ddiffyg effeithlonrwydd a diffyg cyswllt o fewn y gyfundrefn bresennol sy'n creu anawsterau i ddefnyddwyr gwasanaethau, yn ogystal ag ymarferwyr, rheoleiddwyr a barnwyr sy'n ceisio cymhwyso'r gyfraith yn deg a chyson.

Rydym am ddelio â'r pryderon hyn drwy gyflwyno dull symlach (a dull cyffredin lle y bo modd) o gynllunio gofal a chymorth.

**Beth fydd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ei wneud**

Lle y mae'n ofynnol bod yr awdurdod lleol yn bodloni  anghenion cymwys' y person, rhaid iddo baratoi a chynnal ***cynllun gofal a chymorth.***

Mae cynllun gofal a chymorth yn ofynnol hefyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant eraill sydd wedi'u lletya a rhaid paratoi cynllun llwybr ar gyfer oedolion ifanc sy'n gadael gofal.

Bydd mwy o fanylion mewn rheoliadau hefyd ynghylch:

- Paratoi cynlluniau a'r fformat ar eu cyfer
- Adolygu neu ddiwygio cynlluniau
- Pobl y dylid eu cynnwys neu ymgynghori â nhw wrth ddatblygu adolygu cynlluniau
- Paratoi ac adolygu cynlluniau ar y cyd â chynlluniau statudol eraill e.e. cynlluniau dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Mae'r darpariaethau hyn yn gyfle i gael llai o orgyffwrdd rhwng trefniadau a byddant yn sicrhau bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu mewn ffordd integredig i unigolion i'w galluogi i gael y lles mwyaf posibl. Y nod yw symleiddio taith yr unigolyn at ofal a chymorth sy'n fwy addas i gwrdd â'i anghenion, ac yn fwy tebygol o sicrhau'r canlyniadau y mae wedi'u nodi.

**Gofal a chymorth hy  lud**

Mae'n bwysig nodi bod y Bil yn cyflwyno hygludedd ar gyfer cynlluniau gofal a chymorth i bobl sydd ag  anghenion cymwys' ar draws ffiniau awdurdodau lleol yng Nghymru.

- Bydd dyletswydd ar yr  awdurdod anfon' i hysbysu'r  awdurdod derbyn' pan fydd unigolyn wedi rhoi gwybod iddo y bydd yn symud i'r ardal newydd.
- Wedyn rhaid i'r  awdurdod derbyn' roi trefniadau pontio ar waith i barhau â'r gofal a chymorth nes bydd yn cynnal adolygiad ailasesiad o anghenion y person.

Mae hyn yn golygu, os bydd pobl (oedolion neu blant) sydd ag  anghenion cymwys' yn symud o ardal i ardal o fewn Cymru, i fyw'n agosach i'w teulu o bosibl, y bydd dyletswydd ar yr awdurdod derbyn i barhau â'r gofal a chymorth sydd wedi'u nodi yn y cynllun (h.y. gwasanaethau cyfatebol yn eu hardaloedd), nes bydd yr awdurdod newydd wedi cael cyfle i adolygu eu hanghenion.

Yn ogystal â hyn, bydd y Fframwaith Cymhwystra Cenedlaethol arfaethedig yn sicrhau bod gofal a chymorth priodol, wedi'u seilio ar anghenion presennol y person, yn parhau, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol.

Mae'n bwysig nodi <u>na fydd</u> y trefniadau hygludedd hyn yn gymwys i gynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr. Felly mewn achosion o'r fath ni fydd dyletswydd ar yr awdurdod newydd i roi trefniadau pontio ar waith.

Fodd bynnag, gan fod y Bil yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiad o anghenion gofalwyr drwy eu hawl eu hunain, fe fydd hyn yn digwydd, felly mae gofalwyr sy'n byw yn ardal yr awdurdod lleol newydd yn gallu arfer yr hawl hon.

Yn achos person sydd wedi cael gwasanaeth yn   l disgresiwn o'r blaen gan yr awdurdod lleol blaenorol, bydd dyletswydd yn awr ar yr awdurdod derbyn i asesu ei anghenion, os yw'n ymddangos iddo fod anghenion am ofal a chymorth gan y person hwnnw.

# Model Gwasanaeth Newydd dan y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)  Cymhwystra

## Sut y penderfynir a yw person yn  ymwys i  ael  wasanaethau  ofal a chymorth

Ar hyn o bryd mae Deddf y GIG a Gofal Cymunedol 1990 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i benderfynu, ar  l gwneud asesiad o anghenion y person, a yw'n ofynnol darparu gwasanaeth.

Ar gyfer oedolion, mae *Creu System Unedig a Theg ar gyfer Asesu a Rheoli Gofal (2002)* yn darparu fframwaith safonol i awdurdodau lleol lle y maent hefyd yn gallu pennu eu meini prawf lleol eu hunain ar gyfer lefel yr anghenion y byddant yn eu diwallu. Os bydd anghenion y person yn bodloni'r meini prawf hynny, rhaid i'r awdurdod gwrdd â'r anghenion hynny.

Mae'r canllawiau'n pennu pedair lefel – critigol, sylweddol, cymedrol ac isel – ar gyfer asesu anghenion. Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o awdurdodau yng Nghymru wedi gosod eu trothwy mynediad ar y lefel  sylweddol' neu  gritigol'.

Ar gyfer plant, mae Deddf Plant 1989 wedi pennu'r diffiniad o  blentyn mewn angen'. Dan y *Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd (2001)* bydd awdurdodau lleol yn gosod eu meini prawf eu hunain ar gyfer trothwyon mynediad i blentyn mewn angen.

## Pam y mae an  en newid y  yfraith

Yn 2010, cafwyd adolygiad o fynediad i wasanaethau gofal gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a daeth i'r casgliad ei bod yn anodd canfod a yw'r system yn deg a chyson ledled Cymru. Mae AGGCC wedi nodi hefyd fod y trothwyon ar gyfer plant yn amrywiol, yn enwedig ar gyfer y rheini sydd ag anableddau.

Yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Ofal Cymdeithasol i Oedolion ym Mai 2011:

- tynnwyd sylw at y cymhlethdod a diffyg cysondeb wrth bennu cymhwystra
- cynigiwyd dehongliad newydd o'r ddyletswydd gyfreithiol i gwrdd ag  anghenion cymwys'
- galwyd am fwy o eglurder ynghylch hawliau defnyddwyr gwasanaethau.

## Beth fydd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ei wneud

Ar  l gwneud asesiad o anghenion, os oes anghenion am ofal a chymorth gan y person, bydd yn ofynnol i'r awdurdod lleol benderfynu a yw'r anghenion hynny'n  gymwys' neu a ellir eu bodloni drwy wasanaethau ataliol.

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer rheoliadau a fydd yn gosod meini prawf cenedlaethol ar gyfer yr amgylchiadau sydd i'w hystyried yn  angen cymwys', lle y bydd ***dyletswydd*** ar awdurdodau lleol i ystyried beth y gellir ei wneud i gwrdd ag anghenion yr unigolyn am ofal a chymorth.

Bydd gofyniad sylfaenol i'r holl awdurdodau lleol gwrdd â'r meini prawf cenedlaethol.

## Beth am y bobl hynny sydd heb  an  henion cymwys'

Pa un a yw anghenion y person yn cwrdd â'r meini prawf cymhwystra neu beidio, bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gofal a chymorth:

- lle y mae oedolyn mewn perygl o gael ei niweidio, ei gam-drin neu ei esgeuluso; neu
- lle y mae plentyn i gael ei letya gan yr awdurdod lleol (gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, plant eraill sy'n cael eu lletya, a phlant sy'n gadael gofal)

## Pa  anlyniadau y bydd y Bil yn eu sicrhau

Bydd defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr yn gweld bod eu cymhwystra i dderbyn gwasanaethau'n cael ei benderfynu mewn ffordd fwy cyson.

Drwy sefydlu fframwaith cenedlaethol sy'n pennu lefelau gwasanaeth sylfaenol, ceir mwy o gydweithio rhwng awdurdodau lleol a rhanbarthau wrth gyflenwi gwasanaethau gofal a chymorth. Bydd hygludedd y cynlluniau gofal a chymorth yn cyfrannu at sicrhau gwasanaethau mwy cyfartal ledled Cymru.

*Mae taflenni gwybodaeth ar wahân ar asesiadau o anghenion; gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy; a chynlluniau gofal a chymorth (gan gynnwys hygludedd)*

**Mae mwy o wybodaeth ar  ael drwy  ysylltu  SocialSer icesNSM  wales  si  o  u**

**Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**

**Darn o Memorandwm Esboniadol – Paragraffau 111, 112, 141, 143, 144**

**Trefniadau a chyllid trosiannol**

111. Mae'r Bil yn rhan o raglen ehangach i drawsnewid y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Cynlluniwyd y rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu er mwyn gallu sicrhau'r newidiadau angenrheidiol, ac mae'r Bil yn darparu ar gyfer rhai o'r newidiadau hynny. Y rhaglen ehangach hon yw'r sbardun i lawer o'r newidiadau sydd eu hangen er mwyn cefnogi cyflwyno'r Bil. Er enghraifft, mae ffrydiau ariannu presennol fel y grant gweithlu o £8.41 miliwn eisoes yn cael eu defnyddio i gefnogi'r broses o drawsnewid a helpu i weithredu'r Bil.

112. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr agenda drawsnewid hon yn 2012-13 ac wedi cynyddu'r arian sydd ar gael ar gyfer arweinyddiaeth a gwella'r sector ei hun i oddeutu £2 filiwn. Rydym yn bwriadu parhau i ddarparu'r cymorth trosiannol hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi trawsnewid drwy ei rhaglen 'Buddsoddi i Arbed'. Mae'n buddsoddi £10 miliwn ar hyn o bryd mewn prosiectau sy'n cynnwys cryn elfen o'r gwasanaethau cymdeithasol, ac yn cyfrannu at drawsnewid y gwasanaethau cymdeithasol ar eu hyd.

**Diwygio ac integreiddio cyfraith gofal cymdeithasol yng Nghymru**

141. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn rhoi llawer o gyllid grant i awdurdodau lleol i gefnogi datblygu'r gweithlu ar draws y sector gofal cymdeithasol. Mae'r grant yn grant arian cyfatebol gyda gwariant wedi'i gynllunio ar Raglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol ar gyfer 2012-13 sy'n rhoi cyfanswm o £12,015,714. Mae'r elfen grant, sy'n darparu 70% o gost y rhaglen, yn £8,411,000. Bwriedir i'r grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol ategu adnoddau hyfforddi'r cyflogwyr. Caiff y cyllid ei ddarparu i gydnabod y gofynion hyfforddiant ychwanegol sylweddol sydd ar y gweithlu gofal cymdeithasol ac mae eisoes wedi'i anelu at uwchsgilio, ennill cymwysterau newydd ac adeiladu ar gymwysterau sydd eisoes yn bodoli.

143. Gan ddechrau yn 2013-14, bydd y cyllid grant hwn yn cael ei ailgyfeirio i sicrhau bod y staff perthnasol yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol i baratoi ar gyfer y Ddeddf a'i gweithredu ac er mwyn talu am gostau dosbarthu gwybodaeth am y newidiadau.

b. costau dosbarthu gwybodaeth am y newidiadau; ac

c. costau i Lywodraeth Cymru a fydd yn deillio o weithredu'r newidiadau.

144. Costau trosiannol yw'r costau uchod (b. ac c.) a Llywodraeth Cymru fydd yn talu amdanynt. Ni fu modd amcangyfrif y costau hynny ar hyn o bryd, oherwydd bod angen datblygu prosiect gweithredu a chynllun gweithredu llawn yn gyntaf. Wrth ddatblygu'r cynllun hwn, a fydd yn cael ei lunio wrth i'r Bil fynd drwy'r broses ddeddfu, bydd modd trin a thrafod gyda rhanddeiliaid allweddol beth fydd y goblygiadau gweithredol, ynghyd â'r costau. Bydd unrhyw gostau o'r fath yn cael eu hymgorffori i ffrydiau gwaith sydd eisoes yn bodoli ar gyfer datblygu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Fel y nodwyd ym mhwyntiau 141 ac 143 uchod, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ailgyfeirio arian grant presennol i dalu'r costau hyn.

**LFGT048813 Doc 1**

## BIL GWASANAETHAU CYHOEDDUS A LLESIANT (CYMRU)

## TABL O'R DIDDYMIADAU ARFAETHEDIG YN DANGOS LLEOLIAD DARPARIAETHAU PERTHNASOL YN Y BIL

*Noder: Mae'n bosibl y gwneir newidiadau bach pellach i'r rhestr hon.*

| **Statud** | **Darpariaeth i'w diddymu** | **Adran/Rhan o'r Bil sy'n cyfateb** |
|---|---|---|
| Deddf Cymorth Gwladol 1948 Rhan III | Adran 21 | Mae darparu llety i bersonau mewn angen bellach wedi'i gynnwys yn Rhan 4 o'r Bil. |
| | Adran 22 | Ymdrinnir â'r ddyletswydd i godi ffioedd drwy bwerau awdurdod lleol i godi ffioedd am wasanaethau yn Rhan 5. |
| | Adran 23 | Rheoli mangreoedd lle darperir llety – heb ei atgynhyrchu |
| | Adran 24 | Ymdrinnir â "darpariaethau tybiedig" Adran 24 yn Adran 163 (preswylfa arferol). |
| | Adran 26 | Ceir darpariaeth ar gyfer trefnu i berson ac eithrio'r awdurdod lleol ddarparu llety yn Adran 20 (Sut i ddiwallu anghenion) |
| | Adran 29 | Caiff darparu gwasanaethau dibreswyl ei gynnwys yn Rhan 4 o'r Bil a thrwy Adran 6. |
| | Adran 30 | Mae pŵer i awdurdodau lleol ddefnyddio sefydliadau gwirfoddol fel asiantwyr i gyflawni eu swyddogaethau – Adran 20 (Sut i ddiwallu anghenion) yn darparu bod awdurdod lleol yn diwallu anghenion drwy drefnu bod person heblaw'r awdurdod yn darparu rhywbeth. |
| | Adran 30A | Cyflwynir cymal yn ymdrin â phwerau Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol i gynnal neu gyfrannu at waith ymchwil. |
| | Adran 32 | Ymdrinnir ag adennill costau rhwng awdurdodau lleol yn adran 162 |
| Deddf Cymorth Gwladol 1948 – Rhan IV | Adran 45 | Adran 55(5) – adennill gwariant yn dilyn camliwio |
| | Adran 47 | Heb ei hatgynhyrchu – pŵer i awdurdod lleol symud person y mae angen gofal a sylw arno oddi ar safle |
| | Adran 48 | Adran 42 - gwarchod eiddo personau y gofelir amdanynt i ffwrdd o'u cartrefi |
| | Adran 49 | Pŵer i godi ffioedd am wasanaethau swyddogion cyngor sy'n gweithredu fel derbynwyr – heb ei atgynhyrchu yn y Bil ond |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwneir darpariaeth gyfatebol yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005. |
| | Adran 51 | Trosedd methiant person i gynnal ei hun – heb ei atgynhyrchu. |
| | Adran 52 | Trosedd gwneud datganiadau anwir mewn perthynas ag ymrwymiad i dalu ffioedd – heb ei atgynhyrchu |
| | Adran 55 | Adran 42(6) – Trosedd rhwystro person sy’n arfer pŵer i fynd ar safle i’r diben o arfer y ddyletswydd yn Adran 42(2) |
| | Adran 56 | Adran 55 – adennill ffioedd fel dyled |
| | Adran 60 | Iawndal i swyddogion wedi’u dadleoli – heb ei atgynhyrchu |
| | Adran 61 | Talu derbyniadau i’r trysorlys – heb ei atgynhyrchu |
| Deddf Personau Anabl (Cyflogaeth) 1958 | Adran 3 | Pŵer awdurdod lleol i ddarparu cyfleusterau ar gyfer cyflogi personau anabl – wedi’i gynnwys yn Rhan 4 (diwallu anghenion) a hefyd yn Adran 6 (gwasanaethau ataliol) |
| Deddf Iechyd Meddwl 1959 | Adran 8 | Darpariaeth yn ymdrin â gorgyffwrdd rhwng swyddogaethau awdurdodau lleol – heb ei hatgynhyrchu |
| Deddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus 1968 | Adran 45 | Pŵer awdurdodau lleol i hybu lles pobl hŷn – wedi’i gynnwys yn Rhan 4, diwallu anghenion a hefyd Adran 6 (gwasanaethau ataliol) |
| Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 | Adran 1 | Dyletswydd i ddarganfod i ba raddau y mae angen gwasanaethau lles mewn ardal awdurdod lleol – Adran 5 |
| | Adran 2 | Dyletswydd i ddiwallu anghenion os oes angen – mae Rhan 4: Diwallu Anghenion yn disodli’r ddarpariaeth hon |
| | Adran 28A | Mae Rhan 4: Diwallu Anghenion yn disodli cymhwyso dyletswydd Adran 2 i blant mewn angen |
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 | Adran 1 | Mae Adran 1 yn diffinio beth yw awdurdod lleol at ddibenion y Ddeddf. Gwneir darpariaeth o’r fath yn Adran 166 y Bil – dehongliad cyffredinol a mynegai o ymadroddion a ddiffiniwyd. |
| | Adran 1A | Adran 119 o’r Bil – Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdodau lleol. |
| | Adran 6 | Mae Adran 120 y Bil yn cynnwys darpariaeth debyg – cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. |
| | Adran 7 | Ni chaiff y ddarpariaeth hon ei hailadrodd yn benodol am fod Adrannau 121 – 125 y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol arfer swyddogaethau perthnasol yn unol â chod neu |

| | | |
|---|---|---|
| | | godau ymarfer a ddyroddir gan Weinidogion Cymru. |
| | Adran 7A | Ni chaiff y ddarpariaeth hon ei hailadrodd yn benodol am fod Adrannau 121-125 y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol arfer swyddogaethau perthnasol yn unol â chod neu godau ymarfer a ddyroddir gan Weinidogion Cymru. |
| | Adran 7C | Ni chaiff darpariaeth a wneir yn yr Adran hon ei hailadrodd yn y Bil. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau eang i gynnal ymchwiliadau o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005. |
| | Adran 7D | Mae’r ddarpariaeth sy’n gynwysedig yn Adran 7D wedi’i chynnwys o fewn pwerau ehangach y llywodraeth ganolog i ymyrryd yn y modd y mae awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol yn Adrannau 126-136 y Bil. Mae’r ddarpariaeth yn y Bil yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant ac oedolion, ond mae Adran 7D yn ymwneud ag arfer swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer oedolion yn unig. |
| | Adran 7E | Heb ei ailadrodd yn y Bil. Mae pwerau ehangach a mwy hyblyg i’w cael mewn deddfau eraill. |
| | Adran 9 | Darpariaeth ar gyfer digwyddiad penodol felly ni chaiff ei hailadrodd yn y Bil. |
| | Adran 12 | Mae Adran 12 yn ymdrin â chymhwyso’r Ddeddf i Ynysoedd Scilly felly nid yw’n berthnasol. |
| | Adran 13 | Adran 165 y Bil – gorchmynion a rheoliadau. |
| | Adran 14 | Adran 167 y Bil – pŵer i wneud diwygiadau canlyniadol a throsiannol. |
| | Adran 15 | Mae Adrannau 166 a 169 y Bil yn cynnwys darpariaeth gyffelyb. |
| | Atodlen 1 | Atodlen 2 y Bil. |
| | Atodlen 2 | Yn cynnwys newidiadau testunol i ddeddfiadau eraill. Nid yw darpariaeth o’r fath yn berthnasol i’r Bil ac ni chaiff ei hailadrodd. |
| Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983 | Adran 17(2A) | Heb ei hailadrodd yn y Bil, mae Adran 17(2A) yn ddarpariaeth benodol ar gyfer Cymru sy’n ymdrin â Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 sydd hefyd yn cael ei diddymu. |
| | Adran 20 | Heb ei ailadrodd yn y Bil. Mae Adran 20 yn cynnwys diwygiadau i Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 sydd hefyd yn cael ei diddymu. |
| | Adran 21 | Caiff egwyddorion yn Adran 21 y Ddeddf hon eu hadlewyrchu yn Adran 57 y Bil, trosglwyddo asedau i osgoi ffioedd. |

| | | |
|---|---|---|
| | Adran 22 | Mae Adran 56 y Bil – creu arwystl dros fuddiant mewn tir – yn deillio o Adran 22. |
| | Adran 23 | Heb ei hailadrodd yn y Bil. |
| | Adran 24 | Caiff y ddarpariaeth a wnaed yn Adran 24 ei chynnwys yn Adran 55 y Bil – adennill costau, llog ac ati. |
| | Atodlen 9 Rhan 2 | Mae Rhan 2 o Atodlen 9 yn caniatáu i awdurdod lleol ddarparu a hwyluso'r gwaith o ddarparu prydau bwyd a hamdden ar gyfer pobl hŷn. Dylid gwneud darpariaeth o'r fath yn y dyfodol yn unol ag Adrannau 6 a 7, a Rhan 4 y Bil. |
| Deddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986 | Adran 3 | Mae Adran 3 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdod lleol sy'n asesu'r angen am wasanaethau i berson anabl ganiatáu i'r person neu gynrychiolydd awdurdodedig gyflwyno sylwadau yn ystod y broses. Mae rhwymedigaethau cyffelyb wedi'u cynnwys yn Adran 4 a Rhan 3 y Bil. |
| | Adran 4 | Mae'r Adran hon yn cynnwys darpariaeth sy'n rhestru rhwymedigaethau awdurdod lleol o dan Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 sydd hefyd yn cael ei diddymu. |
| | | Mae'r Adran hon yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried galluoedd gofalwr. Darperir ar gyfer dyletswyddau newydd tuag at ofalwyr yn Rhannau 3 a 4 y Bil. |
| | Adran 9 | Mae'r Adran hon yn cynnwys diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970, sydd hefyd yn cael ei diddymu. |
| | Adran 11 | Mae'r Adran hon yn galw am gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Senedd sy'n manylu ar ddatblygiad gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn y gymuned i bersonau sy'n dioddef o salwch meddwl neu anfantais feddyliol nad ydynt mewn ysbytai. Ni chaiff ei hailadrodd yn y Bil. |
| Deddf Plant 1989 – Rhan 3 | | Ymdrinnir â'r rhain mewn tabl trawsleoli ar wahân |
| Deddf Plant 1989 – ATODLEN 2 – Cymorth Awdurdod Lleol ar gyfer Plant a Theuluoedd | | |
| RHAN 1 Darparu gwasanaethau i deuluoedd | | |

| | | |
|---|---|---|
| RHAN 2<br>Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol | | |
| RHAN 3 –<br>Cyfraniadau tuag at gynnal plant | | |
| Deddf y GIG a Gofal Cymunedol 1990 | Adran 46 | Cynllluniau ar gyfer gwasanaethau gofal cymunedol – Adran 5 |
| | Adran 47 | Dyletswydd i asesu anghenion – Adran 10, 12 a 15. |
| Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995 | Y Ddeddf gyfan | Ymdrinnir â darpariaeth gwbl newydd ar gyfer asesu gofalwyr yn Rhan 3 y Bil. Mae dyletswyddau newydd i ddiwallu anghenion gofalwyr wedi'u cynnwys yn Rhan 4 y Bil. |
| Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 | Y Ddeddf gyfan | Ymdrinnir â darpariaeth gwbl newydd ar gyfer asesu gofalwyr yn Rhan 3 y Bil. Mae dyletswyddau newydd i ddiwallu anghenion gofalwyr wedi'u cynnwys yn Rhan 4 y Bil. |
| Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 | Adran 49 | Mae darpariaeth gyffelyb wedi'i chynnwys yn Adran 31 y Bil – Eithriad ar gyfer darparu gwasanaethau gofal iechyd. |
| | Adran 53 | Mae'r Adran hon yn cynnwys diwygio Deddf Cymorth Gwladol 1948, sydd hefyd yn cael ei diddymu. |
| | Adran 54 | Mae'r egwyddorion a nodwyd yn Adran 54 wedi'u cynnwys yn Adran 41 y Bil – Achosion pan fo person yn mynegi ei fod yn ffafrio llety penodol. |
| | Adran 55 | Mae'r egwyddorion a nodwyd yn Adran 55 wedi'u cynnwys yn Adran 53 y Bil – cytundebau ar daliadau gohiriedig. |
| | Adran 57 | Mae Adran 57 yn darparu ar gyfer taliadau uniongyrchol; caiff darpariaeth o'r fath ei chynnwys yn Adrannau 34-37 y Bil. |
| | Adran 58 | Mae Adran 58 yn darparu ar gyfer taliadau uniongyrchol ar gyfer plant drwy ddiwygio Deddf Plant 1989; caiff darpariaeth o'r fath ei chynnwys yn Adrannau 34-37 y Bil. |
| | Adran 64(4) | Heb ei hailadrodd yn y Bil. Mae'n ymwneud â'r ddarpariaeth yn Neddf 2001 sy'n cael ei diddymu mewn perthynas â Chymru. |
| Deddf Gofalwyr (Cyfle | Y Ddeddf gyfan | Ymdrinnir â darpariaeth gwbl newydd ar gyfer asesu gofalwyr yn Rhan 3 y Bil. Mae |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfartal) 2004 | | dyletswyddau newydd i ddiwallu anghenion gofalwyr wedi'u cynnwys yn Rhan 4 y Bil. |
| Deddf Gofal Cymunedol (Rhyddhau Gohiriedig etc) 2003 | Adran 16 | Pŵer Gweinidogion Cymru i bennu pa wasanaethau sydd i'w darparu am ddim – wedi'i gynnwys yn Rhan 5: Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol |
| Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 | Adrannau 114 – 118 | Cwynion ynghylch Gwasanaethau Cymdeithasol – wedi'i gynnwys yn Rhan 10 Pennod 1 |
| Deddf Plant 2004 | Adrannau 31 - 34 | Byrddau Diogelu Plant Lleol – sefydlir Byrddau Diogelu Plant newydd yn Rhan 7 Diogelu |
| Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 | Adran 192(1) | Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol ychwanegol – wedi'u cynnwys yn Rhan 4: Diwallu Anghenion a hefyd, Adran 6 |
| | Atodlen 15 | |
| Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010 | Y Mesur cyfan | Codi ffioedd am wasanaethau dibreswyl – wedi'i gynnwys yn Rhan 5 Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol |
| Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 | Rhan 3 – Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd | Ceir darpariaeth sy'n rhoi pŵer i gyfarwyddo partneriaethau yn Adrannau 147 i 150 |
| Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 | Y Mesur cyfan | Mae'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn Adran 8 y Bil yn cwmpasu cymorth i ofalwyr. Mae Adran 5(3) yn ymdrin â strategaethau llesiant a fydd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gofalwyr. |